

Adroddiad Ôl Ymgynghoriad

Ysgol Melin Gruffydd - Gorchymyn Traffig Arbrofol

Rhif Prosiect: CO19058

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion cynllun uchod rhwng 4 Gorffennaf 2019 a 27 Gorffennaf 2019, er, roedd unrhyw ohebiaeth a ddaeth i law yn fuan ar ôl y dyddiad cau yn dal i gael ei chynnwys fel rhan o'r adroddiad hwn. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd cael gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun ac, os yn bosibl, mynd i'r afael ag unrhyw bryderon lleol.

O'r oddeutu 75 eiddo yr ymgynghorwyd â hwy a'r 6 hysbysiad safle a arddangoswyd yn y safle, derbyniwyd 8 ymateb unigol, mae'r rhain wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

- 7 - Cefnogi'r cynnig
- 1 - Gwrthwynebu'r cynnig
- 2 – Ddim yn gwrthwynebu nac yn cefnogi'r cynnig

Dangosir y pryderon a'r sylwadau mewn italig isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Ymateb y Cyngor.

Argymhelliad

Yn sgil yr isod, cynigir **symud ymlaen** gyda'r cynnig yn amodol ar y cyllid sydd ar gael. Byddai'r GRhTDD ar waith am uchafswm o 18 mis a byddai ond yn weithredol yn ystod y tymor ysgol yn unig fel rhan o dreial. Bydd y GRhTDD yn gwahardd cerbydau rhag mynd i mewn neu yrru yn Nheras Glan Y Nant, Ffordd Glan Y Nant a Theras Davis rhwng **8:30 am - 9.15am** a **2.45pm - 3.45pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener**. Mae hyn er mwyn hwyluso diogelwch disgyblion, rhieni a gofalwyr y tu allan i Ysgol Melin Gruffydd ac Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.

Isod ceir sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori yn gwrthwynebu'r cynnig:

Problem - Bydd y problem parcio yn cael ei dadleoli i strydoedd cyfagos

"Rwyf wedi darllen eich cynnig. Mewn egwyddor, byddai yn atal ceir rhieni rhag achosi problemau yn strydoedd y parth a gwneud yr ardal yn fwy diogel i blant yn strydoedd y parth. Ond hoffwn ofyn y cwestiynau canlynol:

Cwestiwn 1: ble bydd y rhieni'n parcio er mwyn gallu codi neu ollwng eu plant? Yn anffodus bydd y strydoedd nesaf i fyny o'r parth hwn fel Ffordd Ty'n-y-pwll a The Pines.

Ar hyn o bryd yn ystod oriau brig yr ysgol mae rhieni hefyd yn peryglu'r ardal hon trwy barcio ar linellau melyn dwbl ar Ffordd Ty'n-y-pwll (ger prif gyffordd Old Church Rd) a ger mynedfa The Pines - does byth wardeiniaid traffig neu faniau Gorfodi'r Cyngor i'w gweld.

Hefyd, gan fod rhieni'n parcio ar linellau dwbl yn The Pines, gall cael mynediad i mewn ac allan o'r stryd- ar brydiau – fod yn anodd a pheryglus ”

“Dyw'r cyfyngiadau ddim yn ystyried y canlynol ychwaith: plymwyr, trydanwyr, gweithwyr atgyweirio cartrefi ac ati sy'n dibynnu ar orffen un swydd a gallu symud ymlaen i'r swydd nesaf ar unwaith heb drafferth; Gweithwyr yn cynnal gwaith cynnal a chadw mewn tai mwy o faint pan na roddir amser penodol ar gyfer apwyntiad, e.e. gweithwyr cwmnïau cenedlaethol yn dod i wasanaethau bwylwr, adeiladwyr y mae angen iddynt adael safle gwaith yn aml i godi deunyddiau ac ati ac yna dychwelyd; ”

Treial 18 mis yw hwn ac yn ystod cyfnod hwn, bydd posibiladau dadleoli'n cael eu monitro'n agos. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r tîm gorfodi parcio i fonitro parcio anghyfreithlon o amgylch yr ysgolion hyn trwy gydol y treial ac addysgu / rhoi dirwyon i droseddwyr. Mae hyn hefyd yn rhan o ymdrech ar y cyd gyda'r ysgolion i hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy, mewn ymdrech ar y cyd i leihau'r orddibyniaeth ar geir gan y rheini sy'n mynd i'r ysgolion.

Ni fydd trwyddedau ymwelwyr a masnachwyr / gyrwyr dosbarthu yn cael trwyddedau a rhaid iddynt wneud trefniadau amgen.

Caniateir i unrhyw ymwelwyr cyfreithlon sydd eisoes yn y parth pan fydd amseroedd cyfyngedig yn cychwyn aros yn y parth tra bo angen, neu adael y parth, ond ni chaniateir iddynt fynd i mewn i'r parth tra bo'r cyfyngiadau mewn grym.

Isod ceir sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd o blaid y cynnig:

“Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas â GRhTDD Ysgol Melin Gruffydd. Rwy'n credu bod y cynllun yn syniad da i wella diogelwch y disgyblion yn yr ysgol a lleihau tagfeydd ar y ffordd. Mae fy ymholiad yn ymwneud â sut bydd y gweithdrefnau newydd yn gweithio yn ymarferol i'r preswylwyr”

Bydd pob trwydded Stryd Ysgol yn rhad ac am ddim i bobl gymwys. Fodd bynnag, ni fydd modd cael trwydded ymwelwyr – bydd yn rhaid iddyn nhw wneud trefniadau amgen.

Caniateir i unrhyw ymwelwyr cyfreithlon sydd eisoes yn y parth pan fydd yr amseroedd cyfyngedig yn cychwyn aros yn y parth tra bo angen, neu adael y parth, ond ni chaniateir iddynt fynd i mewn i'r parth tra bo'r cyfyngiadau mewn grym.

“Rwyf wedi darllen eich cynnig ac, mewn egwyddor, rwy'n cytuno ag ef a bydd yn helpu i atal ceir rhieni rhag achosi problemau yn strydoedd y parth a'i wneud yn fwy diogel i blant yn strydoedd y parth hefyd.

“Er ein bod yn croesawu'r newyddion y bydd y ffordd yn fwy diogel o ganlyniad yn ystod amseroedd ysgol trwy gyfyngiadau traffig”

“Rwy'n byw ar Old Church Road yn yr Eglwys Newydd ac mae gen i fynediad ar hyd lôn i gefn fy eiddo sy'n arwain at Glan Y Nant Road neu Davis's Terrace. Rwy'n aml yn parcio yn yr un o'r strydoedd hyn. O dan eich model trwydded stryd arfaethedig newydd, a alla i gael trwydded os gwelwch yn dda fel y galla i gael mynediad i'm heiddo o'r ardaloedd hyn os gwelwch yn dda? Rwy'n cefnogi eich cynllun peilot ac o'r farn ei fod yn syniad rhagorol. “

“Er fy mod yn cefnogi'r Gorchymyn Traffig Arbrofol, hoffwn dynnu eich sylw at bryderon y mae rhai o breswylwyr Old Church Road wedi'u rhannu gyda mi.

Mae'r preswylwyr hyn yn byw yn y rhes o fythynnod sydd hefyd â mynediad i gefn yr eiddo ar hyd y lôn o Glan Y Nant Rd a Davis Terrace.

Hoffent i'w tai gael eu cynnwys yn ardal y drwydded Parth Diogel; fel arall, bydd y mynediad cyfredol sydd ganddyn nhw i'w heiddo yn cael ei effeithio. Rwy'n cefnogi eu cais.

Ar y ddogfennaeth ymgynghori ar-lein, dyw'r tai hyn ddim wedi'u cynnwys yn y triongl sydd wedi'i liwio'n goch ar y cynlluniau, rhwng Teras Davis a'r groesfan sebra yn y ganolfan gymunedol. ”

O ystyried yr amgylchiadau penodol, bydd eiddo 26 - 54 (eilrifau yn unig) ar Old Church Road yn cael eu hychwanegu at gynllun trwydded Stryd yr Ysgol.

Isod ceir sylwadau ychwanegol a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori ynghylch materion eraill a gododd o'r ymgynghoriad:

Sylw - Sut bydd y cynllun newydd yn cael ei orfodi?

“Cwestiwn 2 - sut byddwch chi'n atal ymwelwyr go iawn â'r strydoedd yn y parth hwn rhag cael dirwy?”

“Cwestiwn 3? A ydych chi'n mynd i wahardd faniau cludo rhag mynd i mewn i'r parth hwn yn ystod yr oriau perthnasol? ”

“Oni bai y bydd y camerâu monitro yn gallu darllen rhifau cofrestru cerbydau a'u bod wedi'u cysylltu fel bod y cerbydau nad oes ganddynt awdurdodaeth yn cael eu hadnabod, bydd y system hon yn cael ei hanwybyddu ynghyd â'r cyfyngiadau parcio sydd wedi bod ar waith yn yr ardal hon ers sawl blwyddyn bellach. Bydd y mwyafrif o yrwyr, fel arfer, yn anwybyddu unrhyw arwyddion ar ochr y ffordd. Mae cerbydau cludo yn enghraifft arall

Gallwch roi pas ffenestr i berchnogion cerbydau awdurdodedig sy'n preswyllo yn y stryd yn debyg i'n pasys parcio presennol. Yna, gallai preswylwyr nodi a riportio unrhyw gerbydau sydd heb drwydded. ”

Treial 18 mis yw hwn ac yn ystod y cyfnod hwn, bydd posibiliadau dadleoli'n cael eu monitro'n agos. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r tîm gorfodi parcio i fonitro parcio anghyfreithlon o amgylch yr ysgolion hyn trwy gydol y treial ac addysgu / rhoi dirwyon i droseddwyr. Mae hyn hefyd yn rhan o ymdrech ar y cyd gyda'r ysgolion i hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy, mewn ymdrech ar y cyd i leihau'r orddibyniaeth ar geir gan y rheini sy'n mynd i'r ysgolion.

Ni fydd trwyddedau ymwelwyr a masnachwyr / gywyr dosbarthu yn cael trwyddedau a rhaid iddynt wneud trefniadau amgen.

Caniateir i unrhyw ymwelwyr cyfreithlon sydd eisoes yn y parth pan fydd amseroedd cyfyngedig yn cychwyn aros yn y parth tra bo angen, neu adael y parth, ond ni chaniateir iddynt fynd i mewn i'r parth tra bo'r cyfyngiadau mewn grym.

Sylw - Pwy sy'n cael eu heithrio?


- *“gweithwyr gofal, meddygon, nyrsys cymunedol, unrhyw gymorth arall sydd ei angen ar breswylwyr bregus, naill ai eisoes yn preswyllo neu'n cyrraedd yn y dyfodol. Ni ellir rheoli gwasanaethau fel hyn gan reolaethau amser;*
- *ymwelwyr galw heibio achlysurol sy'n achubiaeth i bobl sydd â symudedd cyfyngedig. Mae disgwyl i bobl ofyn i'w hymwelwyr gyrraedd neu adael ar adegau penodol neu fod mewn perygl o gael eu cosbi yn cyfyngu ar ryddid bobl i fyw eu bywydau fel y dymunant. Mae hyn yn ogystal ag yn wahanol i'r anghyfleustra arferol o dagfeydd traffig y mae holl drigolion Caerdydd yn cael eu heffeithio ganddynt ar oriau brig traffig;*
- *tacsis a liffiau, sydd eu hangen ar bobl heb geir neu'r rheini sy'n mynd ar deithiau heb eu car. Mae hyn yn eithaf eironig gan mai pwrpas y cynlluniau yw cwtogi ar ddefnydd ceir preifat ar y strydoedd hyn.*
- *Nid yw'r cyfyngiadau hefyd yn ystyried:*
- *“plymwyr, trydanwyr, gweithwyr yn wneud mân atgyweiriadau yng nghartrefi pobl ac ati sy'n dibynnu ar allu gorffen un swydd cyn gallu symud yn hawdd i'r nesaf heb drafferth;*
- *gwaith cynnal a chadw ar dai mwy o faint pan na roddir apwyntiadau penodol, e.e. cwmnïau cenedlaethol yn gwasanaethu bwyleri, adeiladwyr y mae angen iddynt allu gadael y safle gwaith i godi deunyddiau ac ati; ”*
- *cwmnïau dosbarthu o bob math. Mae llawer o'r rhain yn gwmnïau cenedlaethol sy'n gweithio i amserlenni a gynllunnir ac a reolir yn dynn. Byddai darganfod na allan nhw allu cludo eu parseli effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir;*
- *Nid yw pobl sydd heb blant o oed ysgol ddim yn ymwybodol o amseroedd tymor ysgol. Yn aml mae gan bobl o'r tu allan i'r ardal amseroedd tymor gwahanol. A fydd arwyddion arfaethedig yn gallu arddangos yn electronig pan fydd y ffyrdd ar agor? O dan y cynllun hwn bydd camgymeriadau dilys y tu hwnt o gostus. ”*

Bydd meddygon, nyrsys cymunedol a gofalwyr yn cael eu heithrio oherwydd eu bod yn perthyn i gategori anghenion meddygol.

Ni fydd ymwelwyr a masnachwyr / gyrwyr faniau dosbarthu yn cael trwydded; bydd yn rhaid iddynt nhw wneud trefniadau amgen.

Caniateir i unrhyw ymwelwyr cyfreithlon sydd eisoes yn y parth pan fydd amseroedd cyfyngedig yn cychwyn barhau i barcio yn y parth tra bo'r angen, neu adael y parth, ond ni chaniateir iddynt fynd i mewn i'r parth tra bo'r cyfyngiadau mewn grym.

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/ Projectautrafnidiaeth](http://www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth) ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown. Further details about this consultation are available at cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link.